Archif ITV yng Nghymru – Nodyn ar gyfer Cynhyrchwyr S4C

Cyhoeddwyd 2017

1. Archif ITV yng Nghymru

1.1 Mae S4C ac ITV wedi ymrwymo i gytundeb sy'n amlinellu'r telerau ar gyfer defnyddio rhaglenni a gynhyrchwyd gan ITV ar gyfer S4C.

1.2 Mae'r nodyn hwn yn berthnasol i gynhyrchwyr annibynnol sy'n dymuno defnyddio clipiau a/neu ddeunydd crai o raglenni ITV mewn rhaglenni newydd a gomisiynwyd i'w darlledu ar wasanaethau S4C.

1.3 Mae Tablau 1 a 2 isod yn nodi, mewn perthynas â phob cyfnod penodol, perchenogaeth rhaglenni a deunydd crai, yn ôl eu trefn (neu'r hawliau ymelwa sy'n berthnasol iddynt), a ph'un a oes rhaid i'r cynhyrchydd newydd dalu Ffi Clip i'w defnyddio.

2. Allwedd

Cyfnod 1 – Rhaglenni a gynhyrchwyd cyn 27 Mai 1982
Cyfnod 2 – Rhaglenni a gynhyrchwyd rhwng 27 Mai 1982 a 31 Rhagfyr 1989
Cyfnod 3 – Rhaglenni a gynhyrchwyd rhwng 1 Ionawr 1990 a 31 Rhagfyr 1992
Cyfnod 4 – Rhaglenni a gynhyrchwyd rhwng 1 Ionawr 1993 a 31 Rhagfyr 2011
Cyfnod 5 – Rhaglenni a gynhyrchwyd o 1 Ionawr 2012 ymlaen

TABL 1 - CLIPIAU

	Perchenogaeth / Rheolaeth Hawliau Ymelwa	**A oes rhaid talu Ffi Clipiau i ITV am ddefnyddio clipiau mewn rhaglenni S4C?**	**A oes rhaid talu Ffi Clipiau am ddefnyddio clipiau mewn hyrwyddiadau ar gyfer rhaglenni S4C?**
Cyfnod 1	ITV	Oes	Oes
Cyfnod 2	ITV	Dim tâl am hyd at 3.5 munud fesul 30 munud (14.2%) Codir Ffi Clipiau am ddefnydd uwchlaw hynny yn unig	Dim tâl am ddefnydd o hyd at 10 eiliad fesul hyrwyddiad. Codir Ffi Clipiau am ddefnydd uwchlaw hynny yn unig
Cyfnod 3	S4C	Nac oes	Nac oes
Cyfnod 4	S4C (1993-1997 ym mherchenogaeth ITV, ond trwydded ecsgliwsif o'r holl hawliau i S4C)	Nac oes	Nac oes
Cyfnod 5	ITV	Nid yn ystod cyfnod trwydded S4C heblaw yn unol â Pholisi Clipiau a Deunydd Crai S4C	Nid yn ystod cyfnod trwydded S4C

TABL 2 – DEUNYDD CRAI

	Perchenogaeth / Rheolaeth Hawliau Ymelwa	**A oes rhaid talu Ffi Clipiau i ITV am ddefnyddio clipiau mewn rhaglenni S4C ?**	**A oes rhaid talu Ffi Clipiau am ddefnyddio clipiau mewn hyrwyddiadau ar gyfer rhaglenni S4C ?**
Cyfnod 1	ITV	Oes	Oes
Cyfnod 2	ITV	Oes	Oes
Cyfnod 3	ITV	Nac oes	Nac oes
Cyfnod 4	S4C (1993-1997 ym mherchenogaeth ITV, ond trwydded ecsgliwsif o'r holl hawliau i S4C)	Nac oes	Nac oes
Cyfnod 5	ITV	Nid yn ystod cyfnod trwydded S4C heblaw yn unol â Pholisi Clipiau a Deunydd Crai S4C	Nid yn ystod cyfnod trwydded S4C

3. Ceisiadau am Glipiau

3.1 Bydd S4C ac ITV yn ymateb i geisiadau am wybodaeth sylfaenol ynglŷn â'r rhaglenni yn brydlon a heb godi ffi weinyddol.

3.2 O ran pob cais am glipiau Rhaglenni Cyfnod 2 ymlaen a deunydd crai Rhaglenni Cyfnod 5, cynghorir cynhyrchwyr i gysylltu â Llyfrgell S4C yn y lle cyntaf. Os na ellir dod o hyd i'r clipiau y gofynnwyd amdanynt yn S4C, dylai'r cynhyrchydd gysylltu ag ITV. O ran pob cais arall am glipiau a deunydd crai, cynghorir cynhyrchwyr i gysylltu ag ITV yn y lle cyntaf.

3.3 Gwneir pob ymdrech i gyflenwi clipiau o fewn 3 diwrnod gwaith.

3.4 Mae unrhyw ddefnydd o'r clipiau a'r deunydd crai a gafwyd o ITV yn amodol ar dalu ffi ymchwil arferol ITV a chostau trosglwyddo technegol.

3.5 Ni waeth p'un a yw ffi'n daladwy ai peidio, mae unrhyw ddefnydd o glipiau neu ddeunydd crai'n amodol ar y ffaith bod y cynhyrchydd yn cael unrhyw ganiatâd hawliau sylfaenol sy'n ofynnol cyn defnyddio'r deunydd, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) actorion, ysgrifenwyr sgript a cherddorion, ac yn talu unrhyw daliadau ailddarlledu a gweddill-daliadau sy'n ddyledus.

3.6 Mae'n rhaid i'r cynhyrchydd sicrhau bod cydnabyddiaeth briodol yn cael ei rhoi i ITV am ddefnyddio'r clipiau a'r deunydd crai.

4. Ffïoedd Clip

4.1 Os yw Ffi Clipiau'n daladwy am ddefnyddio clipiau neu ddeunydd crai ITV, bydd y cyfryw Ffi Clipiau'n cael ei gosod gan ITV ond ni fydd yn fwy na chyfradd y farchnad ar gyfer clipiau o'r un ansawdd a natur, o ystyried y gyfradd farchnad berthnasol ar gyfer y clip o dan sylw.

5. Costau Ymchwil a Thechnegol (2017)

4.1 Codir ffi o £100 yr awr + TAW am waith ymchwil gan staff ITV a chostau technegol.

5. Ymelwa Ychwanegol

Bydd unrhyw ddefnydd masnachol neu ddefnydd arall o'r clipiau a'r deunydd crai gan gynhyrchwyr yn ôl disgresiwn ITV.